Ymgyrch Cewynnau Go Iawn
Clecs Cewynnau
Medi 2008

Yn y cylchlythyr hwn:
Mae'r Ymgyrch Cewynnau Go Iawn ar Facebook
Gwirfoddolwyr ac Asiantau
Cewyn Storc
Hysbysfyrddau Cewynnau Go Iawn y Sector Iechyd
Diweddaru Calendr Cewynnau Go Iawn
Digwyddiadau/Cysylltwch â ni

Mae'r Ymgyrch Cewynnau Go Iawn ar Facebook!

Er mwyn dal i fyny â thechnoleg a'r ffyrdd gwahanol y mae pobl yn rhyngweithio â'i gilydd, mae'r Ymgyrch Cewynnau Go Iawn wedi gosod proffil ar Facebook.
Ar y dudalen yma, gallwn ni greu digwyddiadau, gosod fideos a sgwrsio â rhai eraill sy'n frwd dros gewynnau go iawn.
Os ydych eisoes yn aelod o Facebook gallwch weld ein proffil – os na, bydd rhaid i chi gofrestru'n gyntaf ac yna chwilio am yr Ymgyrch Cewynnau Go Iawn.

Gwaith da gwirfoddolwyr ac asiantau

Rydym ni i gyd wedi bod yn brysur ers mis Ebrill eleni a gydag ychydig bach o help gen i, mae 4 arbenigwr cewynnau go iawn bellach yn mynychu'r sgyrsiau cyn-geni mewn 5 ysbyty i roi gwybodaeth i rieni ar gewynnau go iawn a'u manteision. Mae ambell ardal arall gennym i'w threfnu o hyd ond gobeithio cyn bo hir bydd sgyrsiau am gewynnau gennym ym mhob dosbarth cyn-geni sy'n cael ei gynnal yng Nghymru!
Erbyn hyn, mae gennym 19 asiant yng Nghymru a 17 adwerthwr yn gwerthu cewynnau go iawn a 6 gwneuthurwr cewynnau go iawn.
Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â Sian am fwy o fanylion.

PDF created with pdfFactory trial version www.pdffactory.com

Cewyn Storc

Datblygwyd y cewyn yma gan y fydwraig Mary O'Connor i Ysbyty Nobles ar Ynys Manaw. Daeth hi ar draws cewynnau go iawn am y tro cyntaf pan oedd yn gweithio ym maes addysg rieni yn 2003. Bryd hynny daeth Mary'n ymwybodol o fanteision defnyddio cewynnau go iawn, yn ariannol ac yn amgylcheddol. Ers hynny, mae Mary wedi cynllunio cewyn go iawn sy'n addas ar gyfer wardiau mamolaeth ac mae hwn wedi cael ei gyflwyno nid yn unig ar Ynys Manaw ond mewn nifer o ysbytai yn Lloegr hefyd.

Mae'r Ymgyrch Cewynnau Go Iawn yn awyddus iawn i helpu unrhyw wardiau mamolaeth yng Nghymru i fabwysiadu defnyddio cewynnau go iawn ac y bydd yn medru helpu unrhyw ysbyty sy'n dymuno gwneud hynny.

Cysylltwch â Sian am fwy o wybodaeth ar y cewyn Storc a gwaith Mary O'Connor.

Hysbysfyrddau Cewynnau Go Iawn y Sector Iechyd

Fel rhan o'r ymgyrch, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid i ddarparu hysbysfwrdd cewynnau go iawn yn y rhan fwyaf o'r canolfannau geni yng Nghymru. Mae cewynnau ynghlwm wrth y byrddau hyn gyda thagiau gwybodaeth; hefyd, mae ganddyn nhw ddalwyr taflenni a chanllawiau cewynnau a phoster â manylion cyswllt lleol cewynnau go iawn.

Rydym yn gobeithio y bydd yr hysbysfyrddau hyn yn fodd i rieni gael golwg cyffredinol byr ar y mathau o gewynnau go iawn sydd ar gael yn ogystal â rhoi manylion cyswllt lleol iddynt y gallan nhw ei g/alw am fwy o wybodaeth.

PDF created with pdfFactory trial version www.pdffactory.com

Diweddaru Calendr Cewynnau Go Iawn

Dyddiad cau derbyn lluniau am y calendr oedd 27 Mehefin. Yna dewisodd Golly Slater 13 o fabanod a phlant bach ac mae wrthi'n trefnu tynnu'r lluniau ar hyn o bryd.
Diolch i bawb a anfonodd luniau a llongyfarchiadau i'r enillwyr.
Bydd y calendrau'n barod erbyn diwedd 2008.

Digwyddiadau

Mae'r Ymgyrch Cewynnau Go Iawn wedi mynychu rhai digwyddiadau yn ystod y tri mis diwethaf gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Cawsom ein gwahodd gan TWF, corff sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith rhieni a phlant ifanc, i gynnal stondin ddwywaith yn ystod yr Eisteddfod a helpon ni Cynnal Cymru gyda'u stondin dull o fyw cynaliadwy.

Cysylltwch â ni…

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch chi am unrhyw un o'r pynciau sy'n cael eu codi yn y cylchlythyr yma, cysylltwch â ni ar unwaith neu ewch i'n gwefan.
Os oes unrhyw ddigwyddiadau ar y gweill yn eich ardal chi, rhowch wybod i ni ac ychwanegwn ni nhw i'n gwefan.
www.realnappies-wales.org.uk
0845 456 2477

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wasteawarenesswales.org.uk

Sustainable Wales
Cymru Gynhaliol

PDF created with pdfFactory trial version www.pdffactory.com